

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD O BELL – DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD MERCHER, 22 GORFFENNAF 2026 AM 4:00 O’R GLOCH

Presennol

Y Cynghorydd H Bennett – y Cadeirydd

JPD Blundell
C Davies
M J Evans
W R Goode
GC Haines
P W Jenkins
RL Penhale-Thomas
I M Spiller
AJ Williams
R Williams

A R Berrow
E L P Caparros
C L C Davies
N Farr
RM Granville
M L Hughes
W J Kendall
J E Pratt
T Thomas
HM Williams
T Wood

F D Bletsoe
O Clatworthy
P Davies
P Ford
H Griffiths
D M Hughes
M Lewis
R J Smith
G Walter
I Williams

S J Bletsoe
RJ Collins
S Easterbrook
J Gebbie
S J Griffiths
RM James
J Llewellyn-Hopkins
JC Spanswick
A Wathan
MJ Williams

Swyddogion:

Stephen Griffiths
Laura Griffiths
Lindsay Harvey
Rachel Keepins
Christopher Lewis
Carys Lord
Claire Marchant
Jake Morgan
Janine Nightingale
Michael Pitman
Anya Richards
Oscar Roberts
Gaynor Thomas
Kelly Watson

Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Chynllunio Argyfwng
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc
Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Prosiect – Moderneiddio Ysgolion
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid
Cyfarwyddwr Corfforaethol – y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Y Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol – y Cymunedau
Swyddog Cefnogi Technegol - y Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Grŵp – Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus
Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Rheolwr Rhaglen Ysgolion
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol

297. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Penderfyniad Wnaed	Y Cyngorydd Alex Williams Y Cyngorydd Jeff Tildsley Y Cyngorydd David Harrison Y Cyngorydd Norah Clarke
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

298. Datganiad o Fuddiannau

Y Penderfyniad Wnaed	Fe wnaeth y Cyngorydd Heather Griffiths ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda Fe wnaeth y Cyngorydd William Kendall ddatgan buddiant personol yn eitem 7 ar yr Agenda Fe wnaeth y Cyngorydd Steven Easterbrook ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 11 ar yr Agenda Fe wnaeth y Cyngorydd Tim Wood ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 11 ar yr Agenda
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

299. Cymeradwyo'r Cofnodion

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD</u> : cymeradwyo cofnodion 24/06/2026 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

300. Derbyn cyhoeddiadau:

Y Penderfyniad Wnaed	Derbyniwyd cyhoeddiadau gan y Maer a'r Prif Weithredwr.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

301. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

Y Penderfyniad Wnaed	Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

302. Cyflwyniad i'r Cyngor gan Gyfarwyddwr Dinas Ranbarth Caerdydd

Y Penderfyniad Wnaed	Rhoddodd Cyfarwyddwr Dinas Ranbarth Caerdydd gyflwyniad i'r Cyngor, oedd yn amlinellu swyddogaethau allweddol y corff cyhoeddus rhanbarthol a'r gwaith oedd wedi cael ei gyflawni hyd yma. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ac atebwyd y rhain gan gynrychiolwyr Dinas Ranbarth Caerdydd. <u>PENDERFYNWYD</u>: Bod y Cyngor yn nodi'r cyflwyniad fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

303. Alldro Rhaglen Gyfalaf 2025-26 a Diweddariad Chwarter 1 2026-27

Y Penderfyniad Wnaed	Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid gyflwyniad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am alldro y Rhaglen Gyfalaf am 2025-26, gwariant chwarter 1 a'r gwariant a ragwelid ar gyfer 2026-27 fel ar 30 Mehefin 2026, y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2026-27 i 2035-36 a'r dangosyddion Darbodus ac Eraill ar gyfer 2026-27. Tynnodd sylw at y llithriad o £2.011 miliwn oedd yn gysylltiedig â chaffael tir a llithriad pellach o £500,000 ar gyfer arolygon safle ac arolygon technegol ar safle Ysgol newydd Heronsbridge. Bu'r Aelodau'n trafod y pwyntiau canlynol:
----------------------	--

Y CYNGOR – DYDD MERCHER, 22 GORFFENNAF 2026

	• Mynegwyd pryderon ynghylch gor-optimistiaeth hanesyddol yn rhagolygon y gyllideb Gyfalaf. • Croesawyd dyraniad o £500,000 ar gyfer gwelliannau i fynwentydd ac ymdrin â phroblemau draenio a phroblemau llwybrau ym Mynwent Maesteg. • Croesawyd buddsoddiad o £1 miliwn ar gyfer unedau diwydiannol newydd yn Ystâd Ddiwydiannol Fferm y Pentref. • Croesawyd buddsoddiad o £1.25 miliwn ar gyfer cynlluniau diogelwch ffyrdd/croesfannau ac £1.5 miliwn ar gyfer cronfeydd effaith gymunedol. Atebwyd cwestiynau gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol <u>PENDERFYNWYD:</u> bod y Cyngor yn nodi ac yn cymeradwyo Alldro y Rhaglen Gyfalaf am 2025-26 a diweddariad/amrywiadau Chwarter 1 ar gyfer 2026-27 fel y cawsant eu cyflwyno yn yr adroddiad..
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

304. Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2025-26

Y Penderfyniad Wnaed	Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am weithgareddau rheoli'r trysorlys yn ogystal â pherfformiad, dyled a buddsoddiad am flwyddyn 2025-26. Gofynnodd Aelod sut mae cronfeydd arian parod wrth gefn sydd dros ben yn cael eu rheoli ac a oedd dal balansau buddsoddi mawr yn cyfyngu ar y cyllid ar gyfer cynigion hyfyw o fuddsoddi i arbed. Esboniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid fod arian parod dros ben dyddiol yn cael ei fuddsoddi yn y tymor byr er mwyn sicrhau hylifedd a chydbwysu'r risg, ond y gellid ei alw'n ôl pryd bynnag y câi cynigion hyfyw o fuddsoddi i arbed eu cymeradwyo. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor wedi nodi a chymeradwyo gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys a'r dangosyddion alldro ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

305. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

Y Penderfyniad Wnaed	Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau. Esboniodd fod yr adroddiad yn crynhoi hyfforddiant Cod Ymddygiad yn ogystal â goruchwyllo llywodraethu, a'r cwynion a broseswyd yn ystod y flwyddyn. Roedd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/26 ynghlwm fel Atodiad 1 ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo ar 8 Gorffennaf 2026. Mynegodd yr Arweinydd rwystredigaeth ynghylch hyd proses yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ddyfynnu achos penodol yn ymwneud â Chynghorydd Cymuned Bracla a gafodd ei geryddu ond a fethodd â chwblhau'r hyfforddiant Cod Ymddygiad gorfodol. Adleisiodd Aelodau eraill y pwynt hwn gan obeithio y câi adborth oddi wrth yr Aelodau ei gymryd i ystyriaeth. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor wedi derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

306. Derbyn y cwestiynau canlynol oddi wrth:

Y Penderfyniad Wnaed	Derbyniodd y Cynghorydd Huw David ateb i'w gwestiwn. Gofynnodd gwestiwn atodol yn y cyfarfod a chafodd hwn ei ateb gan Aelod y Cabinet. Derbyniodd y Cynghorydd Tim Thomas ateb i'w gwestiwn. Gofynnodd gwestiwn atodol yn y cyfarfod a chafodd hwn ei ateb gan Aelod y Cabinet. Derbyniodd y Cynghorydd Ian Williams ateb i'w gwestiwn. Gofynnodd gwestiwn atodol yn y cyfarfod a chafodd hwn ei ateb gan Aelod y Cabinet.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

307. Hysbysiad o Gynnig a wnaed gan:

Y Penderfyniad Wnaed	Y Cynghorydd Tim Thomas: Cytunwyd i ohirio'r Cynnig hwn tan y cyfarfod nesaf, am fod ymgynghoriad ynghylch Gorchymyn Amddiffyn Man Cyhoeddus yn mynd ymlaen ar hyn o bryd oedd yn gysylltiedig â'r Cynnig. Y Cynghorydd Freya Bletsoe: Roedd y cynnig i'r Aelodau. Yn ystod y trafodaethau cynigiwyd dau welliant gan Aelodau. Gwelliant gan y Cynghorydd J Pratt Cynnig: Edrych i mewn i bolisiau rhyddhad trethi dewisol y Cyngor a'u hadolygu ochr yn ochr â thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. Gwelliant gan yr Arweinydd Cynnig: Ehangu cwmpas eiriolaeth y cynnig i ysgrifennu'n uniongyrchol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru sydd newydd gael ei benodi ochr yn ochr â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a gweinidogion Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd y ddau welliant a chafodd y cynnig diwygiedig ei basio'n ddiwrthwynebiad.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

308. Eitemau Brys

Y Penderfyniad Wnaed	Nid oedd dim eitemau brys.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	22 Gorffennaf 2026

I wyllo dadl bellach a ddigwyddodd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:00.

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg